# Mae ein Hawliau Sifil yn cael eu herydu

## Mae pŵer yn cael ei dynnu oddi ar bobl a'n cymunedau

Mae'r hawl i dreial gan reithgor yn draddodiad hynafol o ryddid sifil Prydain. Os cewch eich cyhuddo o drosedd ddifrifol dylech gael y cyfle i amddiffyn eich hun ac egluro eich gweithredoedd gerbron rheithgor o'ch cymheiriaid.




Ond wrth i'r llywodraeth basio mwy a mwy o ddeddfau i droseddoli'r rhai sy'n datgelu ei thrais a'i chelwydd, mae mwy o achosion sy'n cynnwys gweithredu uniongyrchol di-drais yn mynd i dreial rheithgor, ac mae'r llywodraeth yn ceisio mynd i'r afael â hyn hefyd. Mae rheithgorau yn aml wedi rhyddhau diffynyddion pan fyddant yn cael clywed yr holl dystiolaeth. Felly mae rhai barnwyr yn ceisio cyfyngu ar y dystiolaeth y gall y rheithgor ei chlywed.

**Mae pobl wedi cael eu carcharu am ddefnyddio'r geiriau "newid hinsawdd" wrth ddisgrifio eu gweithredoedd**

Mae eraill wedi cael eu bygwth â chael gwared ar y rheithgor yn gyfan gwbl. Roedd un barnwr hyd yn oed wedi bygwth y rheithgor ag erlyniad! Lle mae rheithgorau yn rhyddfarnu diffynyddion, mae'r llywodraeth yn apelio i ddileu'r amddiffyniad hwnnw, fel na fydd neb arall yn dianc o'u crafangau. Byddwn yn atgoffa pobl o hawliau rheithgorau. A rhoi gwybod iddynt am yr ymosodiad ar y system llysoedd. Rhaid amddiffyn ein hawliau sifil rhag yr ymosodiad hwn. Dewch i'n helpu i amddiffyn ein hawliau.

Defend Our Juries

Ymunwch â'r sgwrs genedlaethol yn #defendourjuries

**defendourjuries.org | info@defendourjuries.org**